



ECO 4 - Canllaw i Ymgeiswyr

Gweithredir y cynllun ECO4 gan gwmnïau preifat, Bydd y cyllid ar gyfer y gwelliannau yn cael ei ddyfarnu gan y cwmnïau ynni. Mae cyfranogiad Cyngor Gwynedd yn gyfyngedig ac nid yw'n gyfrifol am roi cyllid. Mae'r cyllid ar gael ar gyfer berchnogion preifat a thenantiaid sy'n rhentu'n breifat yn unig sydd wedi cofrestru gyda Rhentu Doeth Cymru.

<https://www.rhentudoeth.llyw.cymru/cym/home/>

Mae Rhwymedigaeth Cwmnïau Ynni 4 (ECO4) yn gynllun effeithlonrwydd ynni'r llywodraeth, a weinyddir gan Ofgem (Office of Gas and Electricity Markets), ar ran yr Department for Energy Security and Net Zero (ESNZ). ECO4 wedi cychwyn yn 2022 a bydd yn rhedeg tan fis Mawrth 2026.

Prif amcan ECO4 yw lleihau tlodi tanwydd drwy wella'r stoc tai lleiaf ynni-effeithlon a feddiannir gan aelwydydd incwm isel, agored i niwed a thlodi tanwydd, gan helpu i ddiwallu tlodi tanwydd ac ymrwymadau sero carbon net y Llywodraeth.

Nid yw'r Cyngor yn gyfrifol am gyrchu cyllid cynllun ECO4 nac am drefnu gosod unrhyw fesurau. Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am benderfynu pwy fydd yn gymwys ar gyfer ECO4 Flex yn y Sir. Bydd hyn yn cael ei sefydlu ar sail y wybodaeth a ddarparwyd yn y ffurflen gais ynghyd â'r dystiolaeth ategol. Rhoddir datganiadau i'r rhai sy'n gymwys ac a allai elwa o welliannau.

Mae Cyngor Gwynedd wedi cyhoeddi Datganiad o Fwriad sy'n caniatáu i'r cynllun hwn gael ei gyflawni yng Ngwynedd:

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Trigolion/Tai/Ynni-yn-y-cartref/ECO.aspx>

Meini Prawf Cymhwysedd

I fod yn gymwys, rhaid i eiddo fod yn eiddo domestig preifat a feddiannir (naill ai cartrefi perchen-feddianwyr neu cartrefi sector rhentu preifat). Rhaid i'r eiddo a'r aelwyd lynu at o leiaf un o'r tri llwybr a amlinellir isod (Diffiniadau: TPY = Tystysgrif Perfformiad Ynni, GAS = Gweithdrefn Asesu Safonol):

Llwybr 1 – Incwm Isel Bandiau TPY/GAS aelwydydd perchen-feddiannaeth D-G ac aelwydydd E-G y sector rhentu preifat sydd â CHYFANSWM incwm gros o BOB ffynhonnell yn llai na £31,000. Mae'r cap hwn yn berthnasol waeth beth fo'r eiddo, maint, cyfansoddiad neu ranbarth. Dyma gyfanswm incwm y cartref cyfan, gan gynnwys pob person 18+ oed sy'n byw yn y cyfeiriad hwnnw, megis lletywyr a pherthnasau oedrannus, ac ati.

Llwybr 2 – Targedu procsi Bandiau TPY/GAS E-G ar gyfer aelwydydd perchen-feddianwyr ac aelwydydd yn y sector rhentu preifat sy'n bodloni cyfuniad o ddau o'r procisiaid canlynol:

Procsi 1) Cartrefi yng Nghymru ar LSOA 1-3 ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru 2019. (LOSA-Peblog (Caernarfon), Cadnant (Gwynedd), Bowydd a Rhiw, Marchog 2, Marchog 1, Talysarn)

Procsi 2) Deiliaid tai sy'n derbyn gostyngiad Treth y Cyngor (ar sail incwm isel yn unig).

Procsi 3) Deiliaid tai sy'n agored i fyw mewn cartref oer fel y nodwyd yng Nghannllawiau NICE (Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal). Dim ond un o'r rhestr y gellir ei defnyddio, ac eithrio'r procsi 'incwm isel'.



Procsi 4) Deiliad tŷ sy'n derbyn prydau ysgol am ddim oherwydd incwm isel.

Procsi 6) Aelwyd a gyfeiriwyd at yr Awdurdod Lleol am gymorth gan eu cyflenwr ynni neu Gyngor ar Bopeth am eu bod wedi'u nodi fel rhai sy'n ei chael hi'n anodd talu eu biliau trydan a nwy.

* Sylwch na ellir defnyddio procsiaid 1 a 3 gyda'i gilydd.

* Noder nad yw procsi 5 ar gael gan nad yw Cyngor Gwynedd yn rhedeg cynllun perthnasol.

Llwybr 3 – Atgyfeiriadau GIG Bandiau TPY/GAS D-G aelwydydd perchen-feddianwyr ac aelwydydd E-G y sector rhentu preifat sydd naill ai wedi'u nodi gan berson sydd wedi'i gofrestru ar y Gofrestr Meddygon Teulu, Bwrdd Iechyd Cymru, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG, neu Ymddiriedolaeth GIG fel rhai sy'n agored i niwed, gyda phreswlydd y gallai ei gyflwr iechyd gael ei effeithio ymhellach gan fyw mewn cartref oer. Gall y cyflyrau iechyd hyn fod yn rhai cardiofasgwlaidd, anadlol, gwrthimwedd, neu symudedd cyfyngedig (cyfeiriwch at dempled llythyr atgyfeirio'r GIG ar ein tudalen we yma [Microsoft Word - templed-llythyr-gweithiwr-gofal-iechyd-proffesiynol-y-gig-eco4-flex \(2\).docx \(llyw.cymru\)](#))

Pa fath o fesurau sy'n cael eu cynnig drwy'r cynllun Eco 4 Flex?

Bydd y mesurau effeithlonrwydd ynni y caniateir eu gosod mewn cartref cymwys yn cael eu pennu gan y cwmni gosod a rhaid iddynt fod o fewn cylch gwaith y cynllun cyffredinol. Mae enghreifftiau o'r mesurau y gellir eu gosod yn cynnwys inswleiddio waliau solet, inswleiddio waliau ceudod, inswleiddio ystafell yn y to, inswleiddio lloffttydd, inswleiddio to fflat, uwchraddio gwresogydd stôr trydan, gwres canolog am y tro cyntaf i bwmp gwres ffynhonnell aer, uwchraddio boeler o olew, LPG a thanwydd solet i bwmp gwres ffynhonnell aer, a phaneli solar ffotofoltäig. Bydd ECO4 yn targedu'r eiddo lleiaf ynni-effeithlon (D, E, F & G), fodd bynnag y disgwyl yw y bydd ffocws ar eiddo gradd E, F a G. Mae'r cynllun yn debygol o annog dull aml-fesur, oherwydd y gofyniad i uwchraddio eiddo o leiaf 2 fand EPC (neu i EPC C o leiaf yn achos eiddo EPC D cymwys). Dyma egwyddor gofynion sylfaenol (MR) y cynllun a bydd y gosodwr yn penderfynu arno. Lle mae cyllid ar gael, mae aelwydydd cymwys felly'n debygol o dderbyn mesurau lluosog lle mae'n bosibl ac yn gost-effeithiol gwneud hynny.

A oes cyllid ar gael bob amser?

Nid yw cymhwyster ar gyfer ECO4 Flex yn gwarantu bod cyllid ar gael. Y gosodwyr a'u cyllidwyr sy'n pennu os oes arian gael a faint o arian sydd ar gael. Gall penderfyniadau gan gyflenwyr a gosodwyr ynni ynghylch a ddylid gosod mesur ddibynnu ar: a) arolwg a gynhelir gan gyflenwyr, neu eu hasiantau / contractwyr a chyfrifiad costau gosod; b) yr arbedion ynni y gellir eu cyflawni ar gyfer eiddo; c) os mae cyflenwyr wedi cyrraedd, neu'n agos at gyflawni, eu targedau; a d) ystyriaethau masnachol eraill. Er y bydd rhai mesurau sy'n cael eu hariannu gan ECO yn rhad ac am ddim i ddeiliad y tŷ, efallai y bydd eraill yn cael eu hariannu'n rhannol a bydd angen cyfraniad gan ddeiliad y tŷ neu asiant er mwyn eu cyflawni. Bydd unrhyw drefniant ariannol neu gytundebol yn ymwneud â gosod mesur neu arolwg cartref penodol, neu wasanaeth, yn ôl disgrisiwn perchennog y cartref neu feddiannydd i dderbyn neu wrthod fel y dymunant. Ni fydd y Cyngor Gwynedd yn rhan o unrhyw drefniadau o'r fath; bydd hyn rhwng deiliad y tŷ ac unrhyw drydydd parti o'u dewis ar restr y Cyngor o ddarparwyr/gosodwyr ECO4 Flex cymeradwy



Camau Cysylltiedig- Sut i wneud Cais-

Dylai aelwydydd sy'n dymuno gwneud cais am gyllid ECO4 Flex gysylltu ag un o ddarparwyr/gosodwyr ECO4 Flex cymeradwy Cyngor Gwynedd isod a fydd yn hwyluso'r broses ymgeisio. Nid yw'r Cyngor yn derbyn ceisiadau yn uniongyrchol gan gartrefi. Sylwch nad yw'r Cyngor yn cymeradwyo unrhyw gyflenwr ynni penodol, asiant grant, gosodwr neu gwmni sy'n gysylltiedig â chymhwyso neu osod grantiau neu gynhyrchion cynllun ECO4.

Mae'n ofynnol i'r darparwr/gosodwr cymeradwy gasglu a chyflwyno tystiolaeth o'ch incwm a manylion perthnasol eraill (gan gynnwys personol) i Gyngor Gwynedd fel y gellir gwneud asesiad ynghylch eich cymhwysedd ar gyfer cynllun ECO4 Flex. Nid oes unrhyw rwymedigaeth arnoch i ddarparu'r wybodaeth hon ond drwy wneud hynny rydych yn rhoi eich caniatâd i rannu'r wybodaeth â Chyngor Gwynedd.

Dyma restr o contractwyr sydd wedi cymwysu gan Cyngor Gwynedd

- **Menai Heating: 01248 421044 (ECO 4)**
- **City Energy: 02920 499 183 (ECO 4) Mewn cydweithrediad a CES**
(Consumer Energy Solutions)
- **Baxter Kelly : 01352 860499 (ECO 4)**

Nid yw Cyngor Gwynedd yn gweithio ac nid yw'n cymeradwyo ansawdd crefftwaith y gosodwr/contractwr ECO4 a ddylai fod wedi'i gofrestru gyda Trustmark (Ymholiadau Cyffredinol Trustmark: 0333 555 1234). Fodd bynnag, mae Tîm Ynni'r Cyngor yn rheoli rhestr o ddarparwyr/gosodwyr ECO4 Flex cymeradwy, gan ganiatáu i ddarparwyr/gosodwyr wneud atgyfeiriadau uniongyrchol i'r cynllun ar gyfer gwiriadau cymhwysedd a llofnodi datganiadau gan yr Awdurdod Lleol (lle maent yn gymwys). Nid yw'r tîm yn derbyn atgyfeiriadau gan gynhyrchwyr arweiniol neu drydydd partiön.

(Mae'r broses caffael ar gyfer Eco4 Flex Cyngor Gwynedd wedi cau)

Cynhyrchwyr Arweiniol/Sefydliadau Trydydd Parti

Gall cynhyrchwyr arweiniol/trydydd partiön fod yn gweithio mewn partneriaeth â neu ar ran unrhyw un o ddarparwyr/gosodwyr ECO4 Flex cymeradwy'r Cyngor i gynhyrchu ceisiadau gan breswylwy. Nid yw'r sefydliadau hyn wedi'u cynnwys ar ein fframwaith cymeradwy o ddarparwyr/gosodwyr, ac felly ni fyddwn yn derbyn ceisiadau yn uniongyrchol ganddynt. Gallant hefyd hysbysebu'r cynllun trwy eu sianeli marchnata (e.e., llwyfannau cyfryngau cymdeithasol, post-dafliadau, ac ati). Os byddwch yn ymgysylltu â sefydliad o'r fath i gwblhau cais, yna rhaid i'r sefydliad hwnnw roi gwybod i chi pa un o ddarparwyr/gosodwyr cymeradwy'r Cyngor y mae'n ei gynrychioli.

Byddwch yn ymwybodol, os byddwch yn cwblhau cais drwy gynhyrchydd arweiniol/trydydd parti, bydd y sefydliad hwnnw'n rhannu eich cais (ac felly'n rhannu eich gwybodaeth/manylion personol)



gyda'r darparwr/gosodwr cymeradwy cyn iddo gael ei gyflwyno i'r Cyngor i'w ddilysu. Ni chaniateir i gynhyrchwyr arweiniol / sefydliadau trydydd parti ddefnyddio logo'r Cyngor i farchnata cynllun ECO4.

Dim rhwymedigaethau

Nid yw Cyngor Gwynedd yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd o ganlyniad i unrhyw ganlyniad negyddol, difrod neu golled sy'n deillio o waith sy'n gysylltiedig â chynllun ECO4 Flex a'r gosodwr/darparwr. Mae hyn yn cynnwys ymdrechion sy'n gysylltiedig â pharatoi'r cais neu'r arolwg cyn gosod gwaith. Anghydfodau Os bydd anghydfod yn codi, ni fydd y Cyngor yn cymryd rhan mewn unrhyw ddatrasiad. Mae rhan y Cyngor yn y cynllun ECO4 Flex wedi'i gyfyngu i ddatgan cymhwyster aelwydydd ar gyfer cyllid ECO4 yn unig. Dylai unrhyw gŵyn neu fater a godwyd yn erbyn gwaith neu'r broses ymgeisio sy'n ymwneud â chynllun ECO4 Flex gael ei drafod gyda'r parti gosod/asiant/ariannwr. Os bydd angen i chi fod yn fodlon ar ansawdd y gosodiad yna rhaid i chi ddibynnu ar eich arbenigwr annibynnol eich hun. Os bydd unrhyw waith yn mynd yn ei flaen o dan y cynllun, yna mae'r cytundeb cytundeb rhwng deiliad y tŷ/ymgeisydd a'r cwmni dan sylw (nid gyda'r Cyngor). Y gosodwr sy'n gyfrifol am y gosodiadau (ar gyfer diffygion gosod o fewn cyfnod amser penodol) a'r gwneuthurwr (ar gyfer cynhyrchion diffygiol o fewn y cyfnod gwarant). Cyfrifoldeb y perchennog/deiliad yw cynnal amserlenni gwasanaeth ar gyfer mesurau gosodedig ac nid y cwmni gosod. Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y gosodiad neu'r crefftwaith, yna cysylltwch â'r darparwr / gosodwr ECO4 Flex dan sylw. Os ydych yn pryderu am ymddygiad y syrfëwr neu eich hawliau fel defnyddiwr, yna ffoniwch linell gymorth Gwasanaeth Defnyddwyr Cyngor ar Bopeth: 0808 223 1133 i gael cynghorydd sy'n siarad Saesneg neu 0808 223 1144 am gynghorydd sy'n siarad Cymraeg. Os ydych yn pryderu am ansawdd y gwaith a wneir gan osodwr yna cysylltwch â Trustmark ar y rhif ffôn 0333 555 1234, neu yn ysgrifenedig at Trustmark (2005) Limited, Canolfan Fusnes Arena, Y Sgwâr, Basing View, Basingstoke, RG21 4EB, neu ewch i dudalen we Trustmark <https://www.trustmark.org.uk/contact-us> Mae gan Ofgem dudalen we sy'n amlinellu camau a allai eich helpu i ddatrys cwynion am fesur effeithlonrwydd ynni a osodwyd yn eich cartref. Ewch i <https://www.ofgem.gov.uk/eco4-complaints-process> i ddarllen mwy am y broses.

Hysbysiad Preifatrwydd

Er mwyn i gartref wneud cais am gyllid posibl o dan gynllun ECO4 Flex, bydd angen i'r darparwr/gosodwr ECO4 Flex cymeradwy a'r Cyngor gasglu data personol. Bydd y Cyngor angen y wybodaeth cartref/ymgeisydd ganlynol gan y darparwr/gosodwr cymeradwy: enw cleient, cyfeiriad, tystiolaeth ategol a llwybr atgyfeirio (gall hyn gynnwys data categori arbennig megis gwybodaeth am rai cyflyrau iechyd). Bydd gwybodaeth am nifer y datganiadau a gyhoeddwyd gan y Cyngor yn cael ei chofnodi gan Ddefnyddio Cyfeirnod Eiddo Unigryw (DCEU). Unwaith y bydd datganiad wedi'i roi i'r darparwr/gosodwr cymeradwy bydd y Cyngor yn anfon gwybodaeth y datganiad (cyfeiriad a llwybr cyfeirio) at Ofgem, gweinyddwr ECO4. Gall ceisiadau a datganiadau fod yn destun archwiliadau Ofgem yn ystod yr amser y mae ECO4 mewn grym ond hefyd ar ôl i'r cynllun ddod i ben. Yn ystod yr archwiliadau hyn efallai y bydd Ofgem yn gofyn i'r Cyngor rannu'r ffurflenni cais a'r dystiolaeth ategol gyda nhw. Bydd y Cyngor yn trin yr holl ddata personol a brosesir ar gyfer y cynllun ECO4 yn unol â gofynion yr holl ddeddfwriaeth diogelu data a phreifatrwydd cymwys sydd mewn grym o bryd i'w gilydd yn y DU gan gynnwys GDPR y DU, Deddf Diogelu Data 2018 (a'r



rheoliadau a wneir o dan hynny) a Rheoliadau Preifatrwydd a Chyfathrebu Electronig 2003 (OS 2003/2426) fel y'u diwygiwyd.

- **NODER :-** Nid yw'r Cyngor yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb nac atebolrwydd o ganlyniad i unrhyw ganlyniad negyddol, difrod neu golled sy'n codi o dderbyn grant ECO; neu sy'n codi o waith neu y-direction sy'n gysylltiedig â pharatoi, gwneud cais neu gynnal arolwg cyn grant.